



YNNI
un
blaned

YNNI YN EICH CARTREF

Mae mwyafrif ein hynni yn cael ei ddefnyddio yn ein cartrefi, ac adeiladwyd mwyafrif ein cartrefi beth amser yn ôl. Er mwyn i ni ddefnyddio ynni yn gallach, a chael biliau ynni mwy fforddiadwy, gallwn wneud amryw o bethau – er enghraifft, gwella'r insiwleiddio, ymuno â thariffau ynni ar y cyd neu osod paneli solar.

Cyd Cymru - Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn eich cartref

Canolfan Cyngor ar Ynni De-ddwyrain Cymru Act on CO2

Cynllun Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru

CREU YNNI MEWN Ffordd GYNALIADWY

Mae Cyngor Caerdydd yn manteisio ar y cyfleoedd sydd yn y ddinas i greu ynni carbon isel ac adnewyddol. Mae nifer o gynlluniau i gynyddu ynni lleol ar y gweill. Yn eu plith mae:

- Project 'Adfer ynni' ym Mharc Trident sy'n cynnig rhwydwaith cynhesu o gyfleuster adfer ynni Viridor.
- Cyfleuster Treulio Anaerobig yn defnyddio gwastraff bwyd o Gaerdydd a Bro Morgannwg i greu nyw methan, a ddefnyddir wedyn i gynhyrchu trydan.
- Casglu nwy o safle tirlenwi Ffordd Lamby a chreu trydan ohono.

- Fferm solar ar safle tirlenwi Ffordd Lamby.
- Cynllun trydan dŵr Cored Radur, a
- Phosibilrwydd o greu trydan yn Aber Afon Hafren.

GWYDNWCH YN ERBYN NEWID YN YR HINSAWDD

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf i gynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n wynebu'r byd heddiw. Daw newidiadau yn rhymeredd y byd â newidiadau i batrymau tywydd, lefelau uwch i foroedd a digwyddiadau tywydd mwy dwys a mwy cyson yn eu sgil.

Bydd hyn oll yn effeithio ar Gaerdydd, ar Gymru ac ar y DU. Yn fyd-eang, mae'n bosibl mai yn yr ardaloedd mwyaf agored i niwed y bydd y problemau gwaethaf. Mae angen gweithredu i addasu i'r hinsawdd a lleihau'r risg drwy leihau ein cyfraniad at allyriadau nwy tŷ gwyr.

Llywodraeth Cymru

DEFRA

Rhaglen Effaith Hinsawdd y DU

Yr Ymddiriedolaeth Carbon

Cyfamod Meiri'r UE

Ymgyrch 10:10

I gael rhagor o wybodaeth am Caerdydd Un Blaned ewch i www.caerdyddunblaned.co.uk

